

Mae'r ysgol wedi sefydlu Polisi Asesu a Pholisi Gwaith Cartref newydd. Fel rhan o broses Hunan Arfarnu'r ysgol gofynnwyd i chi fel rhieni ac i'r disgyblion lenwi holiadur yn mynegi barn ar wahanol agweddau ar fywyd yr ysgol. Mae'r newidiadau hyn yn ymateb i'r farn a gasglwyd, ac i'r canfyddiadau eraill a ddeilliodd o'r broses Hunan Arfarnu. Isod fel welir crynodeb o brif nodweddion y ddau bolisi, ac fe ellir gweld copi o'r polisiau llawn ar wefan yr ysgol.

Polisi Asesu

Nod: Sicrhau dulliau dysgu ac addysgu sy'n cynnwys disgyblion yn y broses asesu a thrwy hyn eu cymell i gyflawni eu potensial

Prif nodweddion

- Disgyblion yn ymwybodol o beth sy'n cael ei asesu a sut mae'n cael ei asesu.
- Targedau uchelgeisiol ond cyraeddadwy yn cael eu gosod ym mhob pwnc.
- Aseidiad i rieni yn adrodd ar gyrhaeddiad y disgybl yn y pwnc yn erbyn ei darged/tharged.
- Yr ysgol yn monitro cynnydd a thangyflawni yn effeithiol ac ymateb yn syth.
- Cysondeb yn yr aseidiad o fewn pob Cyfnod Allweddol a rhwng adrannau gan ddefnyddio'r drefn isod o ddefnyddio graddau i adlewyrchu lefelau yn CA3:-

CA3	Bl.7	Bl.8	Bl.9	Lefel ar gyfer Tracio cynnydd (Y Lefel mae'r dysgwr yn debygol o gael erbyn diwedd CA3 ar sail ei gyrhaeddiad ac ymdrech bresennol)
A*	6+	7/7+	8/PE	8
A	5+ / 6	6+	7/7+	7
B	5	5+/6	6/6+	6
C	4	4+/5	5/5+	5
D	3	3+/4	4/4+	4
E	1-2	1-3	1-3+	1-3

Mae lefelau Ffrangeg ar gyfer Bl.7 ac 8 yn wahanol i'r rhain, gan fod y disgyblion yn dechrau'r iaith o'r newydd ym mlwyddyn 7.

- Adroddir ar yr un egwyddor yn CA4/5 gyda'r radd cyrhaeddiad yn adlewyrchu'r radd mae'r disgybl yn debygol o gael ar ddiwedd y cwrs ar sail ei allu, dealltwriaeth ac ymroddiad presennol yn y pwnc.

Polisi Gwaith Cartref

Cefndir: Mae gwaith cartref yn rhan bwysig iawn o addysg disgyblion, ac yn rhan hanfodol o'r cwricwlwm.

Nod: Galluogi'r disgyblion i wneud y cynnydd gorau posibl a meithrin sgiliau dysgu'n annibynnol.

Mathau o waith Cartref: Gall y gwaith gynnwys:- gwaith ymchwil / paratoi, cwblhau gwaith dosbarth, darllen amrywiol destunau, adolygu, gwylio rhaglenni penodol, atgyfnerthu'r dysgu a wneir yn y dosbarth.

Faint o waith cartref: Gosodir gwaith cartref yn rheolaidd a chyson, gyda'r amllder a natur y gwaith yn dibynnu ar allu'r disgybl, gofynion y cwrs a nifer o wersi yr wythnos yn y pwnc.

Asesu: Bydd y tasgau estynedig yn cael eu marcio'n fanwl, gan roi canmoliaeth i ymdrech dda a nodi sut i wella. Mae'n bosibl y bydd rhai tasgau yn cael eu defnyddio ar gyfer gwaith pellach yn yr ysgol, ac o'r herwydd ni fyddant pob tro yn cael eu marcio'n fanwl.

Camau disgyblu: Bydd athrawon ac adrannau yn disgwyl i pob disgybl gwblhau gwaith cartref. Bydd disgybl yn cael ei gyfeirio at Bennaeth Blwyddyn pe na bai disgybl yn cydymffurfio â'r athro / adran. Bydd Pennaeth Blwyddyn yn llythyru rhieni i'w hysbysu fod y disgybl yn cael ei gadw mewn dalfa ôl-ysgol ar nos Fawrth fel cosb a modd i'r disgybl ddysgu fod rhaid cwblhau gwaith cartref.

Cefnogaeth: Yn ogystal â'r cymorth arferol gan athrawon pwnc, mae cymorth ar gael gan yr Anogwr Dysgu a chlybiau gwaith cartref yn yr adran Anghenion Dysgu Ychwanegol. Gall rhieni gynorthwyo yn y broses drwy gadw golwg ar lyfr cyswllt y disgybl, a dangos diddordeb yn y gwaith gan annog a chefnogi yn ôl yr angen.

Defnyddio Technoleg Gwybodaeth: Gall TGCh fod yn adnodd defnyddiol iawn i gynorthwyo'r disgyblion i gwblhau gwaith cartref. Ond cynghorir rhieni i oruwchwilio mynediad eu plant i'r rhyngwrwyd, ac fe'ch atgoffir fod lawrlwytho gwaith a'i ddefnyddio fel gwaith eu hunain yn annerbyniol, a chosbir hyn yn hallt gan fyrdau arholi.

Bydd y polisiau hyn yn gymorth i ni fel ysgol i godi safonau ac i ddarparu'r addysg gorau posibl i'ch plentyn. Hyderwn y cawn eich cefnogaeth chi i weithrediad y polisiau. Diolch am eich cydweithrediad parhaus,

Yn gywir

Mr Arwyn Williams

Dirprwy Bennaeth